Rhif cwmni / company number: 14227941

**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**
**14/11/24 – Tŷ Pawb, Wrecsam**
**14.00 – 14.45**

**Cofnodion a phwyntiau gweithredu | Minutes and actions**

**Presennol | In attendance:** Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Lesley Bush (LB); Sioned Roberts (SR); Huw Jones (HJ); Mair Gwynant, Cadeirydd | Chair ARAC (MG); Natalie Jones (NJ)
**Staff Adnodd:** Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LlS), Ruth Davies (RD), Branwen Edwards (BE).

**Ymddiheuriadau | Apologies:** Nicola Wood (NW)

| **Eitem agenda** ***Agenda item*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1. Croeso, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant \| Welcome, apologies and declarations of interest | Croesawodd GD bawb i'r cyfarfod.<br><br>Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan NW.<br><br>Esboniodd EG fod Lucy Thomas wedi datgan ei bwriad i roi'r gorau i'w rôl fel aelod o'r Bwrdd ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Esboniodd fod y broses i gadarnhau'r ymddiswyddiad yn ffurfiol yn mynd rhagddi. Y nod oedd cytuno ar ddyddiad swyddogol gydag Ysgrifennydd y Cabinet cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Rhagfyr. Bydd gan Adnodd bythefnos o'r dyddiad hwnnw i roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau.<br><br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau. | GD welcomed all attendees to the meeting.<br><br>Apologies were noted from NW.<br><br>EG explained that Lucy Thomas had noted her intention to step down from her role as Board and ARAC member. He explained that the process to confirm the resignation formally is currently underway, with the aim of agreeing an official date with the Cabinet Secretary before the next Board meeting in December. Adnodd will have two weeks from that date to notify Companies House.<br><br>No declarations of interest were noted. |
| **2. Cyllid \| Finance**<br>Polisi Cyllid \| Finance Policy | Rhoddodd EG grynodeb o'r gwaith i ddatblygu'r Polisi Cyllid hyd yma, yn dilyn y drafodaeth a'r gwaith craffu yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ers dechrau'r flwyddyn. | EG gave an overview of the development of the Finance Policy to date, following discussion and scrutiny at ARAC since the beginning of the year. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn argymell y Polisi Cyllid i'r Bwrdd fel dogfen fyw, a bydd gwaith rheolaidd yn cael ei wneud i adolygu'r ddogfen ar ôl i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddechrau yn ei swydd.<br><br>***Penderfyniad: Y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo'r Polisi Cyllid.*** | It was noted that ARAC recommend the Finance Policy to the Board as a live document, which will be kept under regular review once the Director of Corporate Services is in post.<br><br>***Decision: The Board agree to approve the Finance Policy.*** |
| **3. Adnoddau Dynol \| Human Resources**<br><br>Adolygu tâl y staff \| Staff pay review<br>**(eitem gaeedig \| closed item)** | Aelodau o staff: Gadawodd LIS, RD a BE y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.<br><br>**Cofnodion caeëdig.** | Staff members: LIS, RD and BE left the meeting for this item.<br><br>**Closed minutes.** |
| Polisïau adnoddau dynol \| Human resources policies | Roedd y gyfres bresennol o bolisïau adnoddau dynol wedi cael eu cymeradwyo eisoes gan y Bwrdd. Y bwriad oedd edrych eto ar y polisïau gyda chymorth a chyngor Darwin Gray, gan ystyried a oes angen rhagor o bolisïau.<br><br>Esboniodd EG fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi craffu ar y gyfres gyntaf o bolisïau. Roedd tri o'r polisïau hyn wedi'u blaenoriaethu i'w hargymell i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod hwn, gyda rhagor o bolisïau i'w cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr.<br><br>**1. Polisi Gweithio'n Ystwyth** | The suite of HR policies which are currently in place had previously been approved by the Board, with the view of revisiting the policies with Darwin Gray's support and advice, and to consider if additional policies are needed.<br><br>EG explained that the first batch of policies had been scrutinised by ARAC. Three of which had been prioritised for recommending to the Board during this meeting, with further policies to be presented at December's Board meeting.<br><br>**1. Agile working policy** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Gweithio'n Ystwyth.***<br><br>**2. Polisi Treuliau**<br>Dywedodd EG fod y polisi hwn, sydd wedi'i ddiweddaru, yn wahanol mewn rhai ffyrdd i arferion Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n adlewyrchu'r gwahaniaethau yn sut y mae Adnodd yn gweithredu, a hwnnw'n sefydliad cwbl ar wahân. Mae'r polisi'n sicrhau cydbwysedd addas rhwng camau rheoli a ymarferoldeb.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Treuliau.***<br><br>**3. Y Weithdrefn Disgyblu a Galluogrwydd**<br><br>Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r weithdrefn ar y sail ei fod yn cytuno ag egwyddorion y weithdrefn. Ar ôl trafodaethau yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, cytunwyd y byddai angen rhannu'r weithdrefn yn ddwy er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng 'galluogrwydd' a 'disgyblu'. Dywedwyd y byddai'r gwaith o rannu'r ddwy weithdrefn yn cael ei gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cyn i'r polisïau adnoddau dynol gael eu cyflwyno i'r staff er mwyn ymgynghori yn eu cylch.<br><br>***Penderfyniad: Y Bwrdd yn derbyn cymeradwyaeth y Weithdrefn Disgyblu a Galluogrwydd ar yr amod y bydd*** | ***Decision: The Agile working policy was approved by the Board.***<br><br>**2. Expenses policy**<br>EG noted that this updated policy differs in some respects to Welsh Government practice, reflecting the differences in how Adnodd operates as a wholly remote organisation and ensuring an appropriate balance of controls and practicalities.<br><br>***Decision: The Expenses policy was approved by the Board.***<br><br>**3. Disciplinary and capability procedure**<br><br>The Chair of ARAC explained that the Committee approved the procedure on the basis that the principles have been agreed. Following discussions at ARAC, it was agreed that the procedure will need to be split to reflect the variances between 'capability' and 'disciplinary'. It was noted that the work of dividing the two procedures will be completed early in the new year, before HR policies are presented to staff for consultation.<br><br>***Decision: The Board accepted the approval of the Disciplinary and Capability procedure on the proviso that it is split into two separate procedures in the new year, prior to consultation with staff.*** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***yn cael ei rhannu yn ddwy weithdrefn ar wahân yn y flwyddyn newydd, cyn ymgynghori â'r staff.***<br><br>**Cam gweithredu: Y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol i ystyried gosod dyddiadau am yn ail ar gyfer adolygu polisïau adnoddau dynol, er mwyn helpu i reoli'r llwyth gwaith a fydd yn gysylltiedig ag adolygu a diweddaru'r polisïau yn y dyfodol.**<br><br>**Cam gweithredu: Y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol i benderfynu a ddylid cyhoeddi unrhyw bolisïau ar wefan Adnodd.** | **Action: Corporate Services Team to consider staggering the review dates for HR policies to help manage the workload involved in future reviews and updates.**<br><br>**Action: Corporate Services Team to establish whether any policies should be published on the Adnodd website.** |
| 4. UFA \| AOB | **Recriwtio**<br>Rhoddodd EG wybod i aelodau'r Bwrdd bod Kirsty Davies wedi'i phenodi yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adnodd, ac y bydd yn dechrau yn ei swydd ar 6 Ionawr 2025. Esboniodd fod Kirsty wedi bod mewn swydd debyg yn yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ers chwe blynedd.<br><br>**Gwefan Adnodd**<br>Nodwyd bod gwefan Adnodd bellach wedi'i lansio, ar ôl pasio archwiliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio a hygyrchedd.<br><br>Cytunwyd y byddai Blue Stag yn cael ei wahodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth i roi diweddariad trylwyr am ei waith, | **Recruitment**<br>EG informed Board members that Kirsty Davies had been appointed as Director of Corporate Services and will start in her role on 6 January 2025. He explained that Kirsty has been in a similar role at National Academy for Educational Leadership (NAEL) for six years.<br><br>**Adnodd website**<br>It was noted that the Adnodd website has now been launched, having passed WG checks for design and accessibility.<br><br>It was agreed that Blue Stag would be invited to March's Board meeting to provide a comprehensive update on their work, to include social media activity and website metrics. |

| | | |
|---|---|---|
| | a hynny'n cynnwys gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a metrigau'r wefan.<br><br>**Cam gweithredu: Gwahodd Blue Stag i gyfarfod mis Mawrth er mwyn rhoi cyflwyniad cyn busnes swyddogol y Bwrdd.**<br><br>**Cyllid ychwanegol yn 2024-25**<br>Esboniodd EG y bydd Adnodd yn cael cyllid ychwanegol i'w wario ar adnoddau llythrennedd rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Dywedodd y bydd gwybodaeth am y farchnad a gasglwyd drwy drafodaethau â chyflenwyr dros yr haf yn helpu i benderfynu sut y caiff y cyllid ychwanegol hwn ei wario, gyda phwyslais penodol ar adnoddau i hybu llythrennedd.<br><br>**Diweddariad gan Gyfarwyddwr Addysg Dros Dro Llywodraeth Cymru**<br>Dywedwyd bod Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro Llywodraeth Cymru wedi anfon neges at holl staff y Gyfarwyddiaeth yn gofyn iddyn nhw enwi unrhyw waith sy'n mynd rhagddo neu waith sydd yn yr arfaeth a allai elwa o gael adnoddau addysgol a deunyddiau ategol newydd neu rai wedi'u diweddaru, neu waith a allai arwain at greu adnoddau o'r fath.<br><br>Mae e-bost y Cyfarwyddwr Dros Dro yn gofyn i bob tîm yn y Gyfarwyddiaeth sy'n canfod bod angen adnoddau addysgol | **Action: Invite Blue Stag to March meeting for a presentation session before the official business of the Board.**<br><br>**Additional funding 2024-25**<br>EG explained that additional funding will come to Adnodd to spend on literacy resources, between now and the end of the current financial year. He noted that market intelligence gathered from discussions with suppliers over the summer will inform how this additional funding will be deployed, with a particular focus on resources to support literacy.<br><br>**Update from Interim Director of Education, WG**<br>It was noted that a message has been circulated by Welsh Government's Interim Director of Education to all staff across the Directorate requiring them to identify any ongoing or planned work that could lead or benefit from new or updated educational resources and supporting materials.<br><br>The Interim Director's email requests that all teams within the Directorate who identify needs for educational resources should approach the Adnodd Operations Group (AOG) to discuss aims, priorities and funding. Resources needs will be discussed in the AOG's monthly meetings in their early stages, to allow Adnodd to work |

| | | |
|---|---|---|
| | gysylltu â Grŵp Gweithrediadau Adnodd i drafod yr amcanion, y blaenoriaethau a'r cyllid. Bydd angen trafod yr anghenion o ran adnoddau yng nghyfarfodydd misol Grŵp Gweithrediadau Adnodd yn y camau cynnar, er mwyn galluogi Adnodd i weithio'n strategol ac i roi cyngor am yr opsiynau gorau, yr hyn a fydd yn deillio o'r gwaith, a gwerth am arian. | strategically and provide advice on the best options, outcomes and value for money. |